WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol Iechyd yr Amgylchedd – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1586A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol ag adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gallai hefyd oleuo ein gwaith archwilio dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymddwyn wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflawnwyd y gwaith gan Ginette Beal a Lidia Vorontsova o Grant Thornton LLP dan gyfarwyddyd Non Jenkins a Sara-Jane Byrne.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth roi sylw i argymhellion 2 i 4, ond dylai barhau i roi sylw i argymhelliad 5 sy'n ymwneud â gwelliannau wrth gynllunio'n strategol ar gyfer y gwasanaeth.

Hyd yn hyn, mae'r cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cyfrannu at allu'r Cyngor i gyflawni â llai. Wedi i'r Cyngor dynnu'n ôl o'r trefniadau ym mis Tachwedd 2019, bydd yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a allai effeithio ar ei allu i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r un safon.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth roi sylw i argymhellion 2 i 4, ond dylai barhau i roi sylw i argymhelliad 5 sy'n ymwneud â gwelliannau wrth gynllunio'n strategol ar gyfer y gwasanaeth. Hyd yn hyn, mae'r cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cyfrannu at allu'r Cyngor i gyflawni â llai. Wedi i'r Cyngor dynnu'n ôl o'r trefniadau ym mis Tachwedd 2019, bydd yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a allai effeithio ar ei allu i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r un safon. 11

Ni chreffir ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd fel mater o drefn, ond mae aelodau wedi ystyried eitemau penodol yn ôl y gofyn. Cefnogir aelodau trwy seminarau i aelodau, er na chynhaliwyd gwerthusiad o effeithiolrwydd. 11

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer gostyngiadau i gyllideb gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, fel rhan o'i broses o lunio'r gyllideb refeniw flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae'n cydnabod y gellid gwella'r broses o ymgynghori â thrigolion lleol 12

Cyflwynodd y Cyngor ei flaenoriaethau o ran iechyd yr amgylchedd yng Nghynllun y Tîm Diogelu'r Cyhoedd. Mae wedi hunanasesu yn erbyn y Safonau Arfer Gorau, ond nid ydyw wedi nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng dyletswyddau statudol ac anstatudol. 12

Mae'r Cyngor wedi gwella effeithlonrwydd a pherfformiad trwy osod rhai gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar gontract allanol, a thrwy gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Wedi i'r Cyngor derfynu'r trefniadau cydweithio gyda Blaenau Gwent, bydd y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a dylai ystyried sut y gallai fod ar wasanaethau angen newid o ganlyniad. 13

Dylai'r Cyngor barhau i roi sylw i argymhelliad 5 trwy wella'r defnydd o ddata am y galw/angen, dadansoddi'r gost, y budd a'r effaith, er mwyn goleuo penderfyniadau a sut y gallai technoleg a gwybodaeth ddigidol ddatblygu'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth y bu i ni ei adolygu a pham?

1 Yn rhan o'i gyfres 'cyflawni â llai' o Astudiaethau Gwella Llywodraeth Leol, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad – Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion, ym mis Hydref 2014.

2 Yn yr adroddiad hwn, amlygodd yr Archwilydd Cyffredinol ddeddfwriaeth ddiweddar a deddfwriaeth a oedd ar droed, a phryderon Cynghorau na fyddent yn gallu cyflawni'r ymrwymiadau ynddynt. Mae llawer o'r cynigion deddfwriaethol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn 2014, bellach wedi cael eu gweithredu, gan gynnwys: Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Pasiwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn 2017 hefyd.

3 Yn ogystal, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiadau lleol ar gyfer pob Cyngor yn rhan o astudiaeth 2014.

4 Mewn llythyr at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol ar 11 Ionawr 2018, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i ymgymryd â gwaith thematig a oedd yn cyd-fynd yn agosach â'i raglen o Astudiaethau Llywodraeth Leol. Diben alinio gwaith thematig yn agosach at y rhaglen Astudiaethau Llywodraeth Leol, yw gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau archwilio wrth gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, a sicrhau ar yr un pryd fod materion a themâu, ynghyd â'r hyn a ddysgwyd yn adroddiadau'r Astudiaethau Llywodraeth Leol, yn cael eu 'dilyn i fyny' a'u harchwilio gyda chynghorau yn lleol yn y blynyddoedd dilynol.

5 Yn yr adolygiad hwn, cafwyd asesiad i weld a fu unrhyw newidiadau i'r gyllideb a'r staff yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor, ac i ba raddau y mae wedi rhoi sylw i argymhellion ein hadroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2014. At ddiben yr adolygiad hwn, ein ffocws oedd cynnydd y Cyngor wrth roi sylw i argymhellion 2, 3, 4 a 5 yn yr adroddiad cenedlaethol.

6 Yn yr adroddiad, cyflwynwyd chwe argymhelliad ac maent wedi eu hamlinellu yn Arddangosyn 1 isod:

Arddangosyn 1: argymhellion a wnaed yn adroddiad cenedlaethol 2014, Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol; | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| | • nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | |
| A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol, a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain;<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd; | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| | – gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â’r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy’n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau’r effaith a’r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | |
| A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Cynghorau |
| A6 | Nodi’n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni | Llywodraeth Cymru,<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

7 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn ystod y cyfnod o fis Awst tan fis Hydref 2019.

## Ein canfyddiadau

8 Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: **A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion yn adroddiad Iechyd yr Amgylchedd – Cyflawni â llai yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014?**

9 Ar y cyfan, roedd ein canfyddiadau fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth roi sylw i argymhellion 2 i 4, ond dylai barhau i roi sylw i argymhelliad 5 sy'n ymwneud â gwelliannau wrth gynllunio'n strategol ar gyfer y gwasanaeth. Hyd yn hyn, mae'r cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cyfrannu at allu'r Cyngor i gyflawni â llai. Wedi i'r Cyngor dynnu'n ôl o'r trefniadau ym mis Tachwedd 2019, bydd yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a allai effeithio ar ei allu i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r un safon.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:


- Ni chreffir ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd fel mater o drefn, ond mae aelodau wedi ystyried eitemau penodol yn ôl y gofyn. Cefnogir aelodau trwy seminarau i aelodau, er na chynhaliwyd gwerthusiad o effeithiolrwydd.
- Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer gostyngiadau i gyllideb gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, fel rhan o'i broses o lunio'r gyllideb refeniw flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae'n cydnabod y gellid gwella'r broses o ymgynghori â thrigolion lleol.
- Cyflwynodd y Cyngor ei flaenoriaethau o ran iechyd yr amgylchedd yng Nghynllun y Tîm Diogelu'r Cyhoedd. Mae wedi hunanasesu yn erbyn y Safonau Arfer Gorau, ond nid ydyw wedi nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng dyletswyddau statudol ac anstatudol.
- Mae'r Cyngor wedi gwella effeithlonrwydd a pherfformiad trwy osod rhai gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar gontract allanol, a thrwy gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Wedi i'r Cyngor derfynu'r trefniadau cydweithio gyda Blaenau Gwent, bydd y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a dylai ystyried nawr sut y gallai fod ar wasanaethau angen newid o ganlyniad.
- Dylai'r Cyngor barhau i roi sylw i argymhelliad 5 trwy wella'r defnydd o ddata am y galw/angen, dadansoddi'r gost, y budd a'r effaith, er mwyn goleuo penderfyniadau a sut y gallai technoleg a gwybodaeth ddigidol ddatblygu'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd.

## Cefndir


- Hyd yn hyn, mae'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi gostwng o £1.125m yn 2013-14 i £0.896m yn 2019-20, ac mae hyn yn lleihad o tua 20%. Lleihad fu'r duedd o ran alldro refeniw net gwasanaeth iechyd yr amgylchedd, ac roedd wedi lleihau o £1.065m yn 2011-12 i £0.829m yn 2018-19, sef lleihad o 22% (Arddangosyn 1).

- Mae niferoedd staff wedi lleihau o 25 Cyfwerth ag Amser Llawn yn 2014 i 18.8 Cyfwerth ag Amser Llawn yn 2019. Gwelwyd lleihad ymhlith pob gradd, ac eithrio swyddogion iechyd yr amgylchedd cymwys, sydd wedi parhau ar yr un raddfa gydag wyth Swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn (Arddangosyn 2).
- Yn 2015, sefydlodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gyd-wasanaeth Safonau Masnach a Thrwyddedu, ac estynnwyd y cyd-wasanaeth i gynnwys Iechyd yr Amgylchedd yn 2016.
- Gwnaeth y ddau Gyngor arbedion ariannol trwy gyflwyno cyd-strwythur rheoli ym mis Mehefin 2016, lleihau swyddi a gweithio ar draws y Cynghorau. Cefnogir hyn gan leihad o 35% (0.7) yn nifer yr aelodau o staff CALl ar radd Rheolwr, yn ogystal â lleihad o 66% (2.0) yn nifer yr aelodau o staff CALl ar radd Gweinyddydd ers 2014.
- Yn wreiddiol, nod y ddau Gyngor oedd datblygu'r berthynas weithio yn gyd-wasanaeth llwyr. Ar 9 Gorffennaf 2019, cytunodd y Cabinet i dynnu’n ôl o'r trefniadau cydweithio gyda CBS Blaenau Gwent ar 30 Tachwedd 2019.
- Mae'r Cyngor yn rhagamcanu y bydd effaith ariannol y penderfyniad hwn yn costio £60,000 y flwyddyn i'r Cyngor. Mae'r gost ychwanegol hon wedi ei chynnwys yng nghyllideb graidd y gwasanaethau diogelu'r cyhoedd ar gyfer 2019-20.

Arddangosyn 2: cost net gwasanaethau iechyd yr amgylchedd: y gyllideb refeniw o'i chymharu â'r alldro, 2012-13 i 2019-20




Arddangosyn 3: niferoedd staff (cyfwerth ag amser llawn) 2014 o gymharu â 2019



# Cynigion ar gyfer gwelliant

### Arddangosyn 4: cynigion ar gyfer gwelliant

Yn y tabl isod, cyflwynir y cynigion ar gyfer gwelliant yr ydym wedi eu nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwelliant | |
|---|---|
| C1 | Dylai’r Cyngor ystyried sut y gallai wella ymgynghoriad â thrigolion lleol ar newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. |
| C2 | Wrth ystyried sut y gallai fod ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd angen newid yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau bod y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau yn deall ac yn dogfennu'r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol. Bydd hyn o gymorth iddynt wrth iddynt flaenoriaethau eu cyfrifoldebau a'u pwerau yn briodol. |
| C3 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod wedi asesu'n llwyr sut y gallai tynnu allan o'r trefniadau cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent effeithio ar gynaliadwyedd ariannol a gweithredol y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. Mae arno angen ystyried hefyd sut y bydd yn ymateb i'r angen parhaus i gyfrannu at yr her i'r Cyngor o ran y gyllideb, a chyflwyniad deddfwriaeth newydd. |
| C4 | Dylai'r Cyngor barhau i roi sylw i argymhelliad 5 trwy: wella'r defnydd o'r data am alw/angen; dadansoddi'r gost, y budd a'r effaith er mwyn goleuo penderfyniadau; ac adolygu sut y gallai technoleg a gwybodaeth ddigidol ddatblygu'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth roi sylw i argymhellion 2 i 4, ond dylai barhau i roi sylw i argymhelliad 5 sy'n ymwneud â gwelliannau wrth gynllunio'n strategol ar gyfer y gwasanaeth. Hyd yn hyn, mae'r cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cyfrannu at allu'r Cyngor i gyflawni â llai. Wedi i'r Cyngor dynnu'n ôl o'r trefniadau ym mis Tachwedd 2019, bydd yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a allai effeithio ar ei allu i barhau i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd i'r un safon

### Ni chreffir ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd fel mater o drefn, ond mae aelodau wedi ystyried eitemau penodol yn ôl y gofyn. Cefnogir aelodau trwy seminarau i aelodau, er na chynhaliwyd gwerthusiad o effeithiolrwydd.

10 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Mae craffu ar faterion iechyd yr amgylchedd yn gyfrifoldeb ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Llewyrchus. Cyn sefydlu'r pwyllgor hwn ym mis Mai 2019, roedd yn gyfrifoldeb ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Diogelach.
- Yn y 12 mis diwethaf, mae'r swyddogaeth graffu wedi edrych ar Orfodi Amgylcheddol a Pharcio Dinesig yn unig.
- Ym mis Mehefin 2018, bu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Diogelach yn ystyried adroddiad gwreiddiol Swyddfa Archwilio Cymru, Cyflawni â Llai – Yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd, a daeth i'r casgliad fod yr argymhellion wedi cau gan fod y gwasanaethau wedi newid yn sylweddol.
- Nid oes gan y Cyngor raglen strwythuredig o hyfforddiant i aelodau ar gyfer materion iechyd yr amgylchedd, er, darperir rhywfaint o hyfforddiant ar sail ad hoc.

## Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer gostyngiadau i gyllideb gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, fel rhan o'i broses o lunio'r gyllideb refeniw flynyddol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae'n cydnabod y gellid gwella'r broses o ymgynghori â thrigolion lleol

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Caiff arbedion a gynigir ar gyfer iechyd yr amgylchedd eu hystyried yn flynyddol yn rhan o'r broses o lunio'r gyllideb refeniw a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. O 2018-19, roedd y broses hon yn rhoi ystyriaeth glir i'r effaith debygol ar drigolion lleol.
- Ni chafwyd ymgynghoriad manwl ar newidiadau i'r gwasanaeth, er y cyhoeddwyd y cynigion a'r penderfyniadau ar wefan y Cyngor. Cyhoeddwyd y cynnig i atal y gwasanaeth rheoli plâu domestig yn rhan o broses y gyllideb. Adolygwyd y penderfyniad gan y swyddogaeth graffu, ond nid oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.
- Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus yn 2018 ar gyflwyno mesurau uwch ar gyfer rheoli cŵn dan Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus. Dangosodd yr ymarfer ymgynghori gefnogaeth y cyhoedd i fwy o orfodi.

## Cyflwynodd y Cyngor ei flaenoriaethau o ran iechyd yr amgylchedd yng Nghynllun y Tîm Diogelu'r Cyhoedd. Mae wedi hunanasesu yn erbyn y Safonau Arfer Gorau, ond nid ydyw wedi nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng dyletswyddau statudol ac anstatudol

12 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Mae amcanion y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cysylltu'n glir at amcan corfforaethol y Cyngor – 'Glân a Gwyrdd'. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth wedi eu cyflwyno yng Nghynllun y Tîm Diogelu'r Cyhoedd. Gosodwyd safonau derbyniol yn y cynllun hwn.
- Nid yw'r Cyngor wedi asesu darpariaeth gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn ffurfiol eto, mewn perthynas â'r rhwymedigaethau statudol. Yn 2017, peidiodd y Cyngor â darparu rhai o'r gwasanaethau rheoli plâu yr oedd yn eu darparu yn ôl ei ddisgresiwn.
- Mae'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd wedi hunanasesu yn erbyn y Safonau Arfer Gorau ac wedi bodloni'r safonau 'gofynnol' ar draws y rhan fwyaf o'r gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, gyda llawer ohonynt yn cyflawni un neu fwy o'r agweddau ar y safon 'gwell'.

## Mae'r Cyngor wedi gwella effeithlonrwydd a pherfformiad trwy osod rhai gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ar gontract allanol, a thrwy gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Wedi i'r Cyngor derfynu'r trefniadau cydweithio gyda Blaenau Gwent, bydd y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol ychwanegol a dylai ystyried sut y gallai fod ar wasanaethau angen newid o ganlyniad.

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd yn tynnu'n ôl o'r trefniadau cydweithio gyda CBS Blaenau Gwent ym mis Tachwedd 2019 ac mae wedi rhoi rhybudd i'r perwyl hwnnw. Gallai hyn arwain at bwysau ariannol pellach.
- Hyd yn hyn, mae'r cydweithio wedi galluogi'r Cynghorau i wella effeithlonrwydd a pherfformiad.
- Mae perfformiad yn erbyn PAM/013 (Eiddo gwag preifat sy'n cael eu defnyddio unwaith eto) wedi gwella ac mae'n uwch na'r safon i Gymru, lle bo PAM/023 (Sefydliadau bwyd yn cydymffurfio â'r safonau hylendid bwyd) yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd i Gymru.
- Roedd y Cyngor wedi gosod gwaith y gwasanaeth Gorfodi Amgylcheddol ar gontract allanol i Kingdom, ond yn ddiweddar mae wedi dod â'r gwasanaeth yn ôl i mewn fel gwasanaeth mewnol i'r Cyngor er mwyn darparu cyd-wasanaeth gorfodi iechyd yr amgylchedd a pharcio dinesig.
- Peidiodd y Cyngor â darparu ei wasanaeth rheoli plâu domestig yn 2016-17.
- Mae'r Cyngor yn adolygu ei ffioedd a'i daliadau Diogelu'r Cyhoedd bob blwyddyn.
- Mae'r Cyngor yn archwilio'r posibilrwydd o gynhyrchu incwm ychwanegol trwy fod yn Brif Awdurdod ar gyfer busnesau lleol.
- Mae'r Cyngor wedi cael nawdd grant ac wedi cael grantiau i gefnogi'r gwaith o sgorio safonau hylendid bwyd a pharatoi at adael yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â gorfodi cyfraith porthiant a bwyd.

## Dylai'r Cyngor barhau i roi sylw i argymhelliad 5 trwy wella'r defnydd o ddata am y galw/angen, dadansoddi'r gost, y budd a'r effaith, er mwyn goleuo penderfyniadau a sut y gallai technoleg a gwybodaeth ddigidol ddatblygu'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dyma oedd ein canfyddiadau:

- Mae cynllunio strategol ar waith bob blwyddyn yn rhan o broses flynyddol y Cyngor o gynllunio gwasanaethau. Hoffai'r Cyngor weld hyn yn datblygu yn broses fwy deinamig a pharhaus.
- Cyflwynir yr amcanion ar gyfer iechyd yr amgylchedd a thrwyddedu yng Nghynllun Tîm Diogelu'r Cyhoedd a Chynllun y Tîm Trwyddedu.
- Mae'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn adolygu ei berfformiad yn chwarterol yn erbyn ei amcanion.
- Sylwn, fodd bynnag, nad oedd y penderfyniad i ymuno â'r trefniadau cyd-wasanaeth ac i adael y trefniadau hynny, yn ddarostyngedig i arfarniad opsiynau neu ddadansoddiad o gostau/buddion. Nid oedd Cytundeb Cydweithio na threfniadau llywodraethu ffurfiol eraill ar waith rhwng y ddau Gyngor.
- Nid yw'r Cyngor yn defnyddio technoleg ddigidol i gynllunio ac i ddatblygu ei wasanaethau.
- Gall trigolion adrodd am achosion o dipio anghyfreithlon trwy ap ar gyfer teclynnau symudol.
- Mae'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn defnyddio Civica APP i reoli ac i ddadansoddi data ac mae yn y broses o ddatblygu templed perfformiad er mwyn arddangos y galw am wasanaethau a'r canlyniadau gan ddefnyddio adroddiadau o Civica APP.
- Mae'r gwasanaethau yn ystyried mesur o'r galw yn flynyddol yng nghynlluniau'r gwasanaethau, ond y tu hwnt i'r enghreifftiau uchod, nid ydynt yn defnyddio data a thechnoleg ddigidol mewn ffordd arwyddocaol i dargedu gwasanaethau.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru